Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Egwyddorion Llywodraeth Cymru ar Ddeddfwriaeth y DU mewn meysydd datganoledig

1. Rydym yn dilyn yr egwyddor y dylai **deddfwriaeth sylfaenol** mewn meysydd datganoledig gael ei deddfu gan y Senedd, ac y dylai **is-ddeddfwriaeth** mewn meysydd datganoledig gael ei deddfu gan Weinidogion Cymru pan fo cymhwysedd gweithredol.

2. Fodd bynnag, gall sefyllfaoedd godi pan fyddai hi er budd gorau Cymru i ddarpariaethau a fyddai o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd gael eu cynnwys mewn Biliau gan Senedd y DU, gyda chydsyniad y Senedd. Gall sefyllfaoedd godi hefyd pan fyddai hi er budd gorau Cymru i ddarpariaeth ddeddfwriaethol ar ffurf is-ddeddfwriaeth a fyddai o fewn cymhwysedd gweithredol Gweinidogion Cymru gael ei gwneud gan Weinidogion Llywodraeth y DU, gyda chydsyniad Gweinidogion Cymru.

3. Gallai'r enghreifftiau o sefyllfaoedd perthnasol gynnwys:

   - pan fyddai cynnig deddfwriaethol Llywodraeth y DU hefyd yn briodol ar gyfer yr amgylchiadau Cymreig ond na fyddai'n bosibl fel arall i ddarpariaeth a wneir yng Nghymru gael ei chyflwyno yn unol ag amserlen addas;

   - pan fo natur gydgysylltiedig systemau gweinyddol perthnasol Cymru a Lloegr yn golygu mai'r ffordd fwyaf effeithiol a phriodol o weithredu yw bwrw ymlaen â darpariaeth ar gyfer y ddwy yr un pryd yn yr un offeryn deddfwriaethol;

   - pan fo'r darpariaethau datganoledig dan sylw yn fân ddarpariaethau neu'n ddarpariaethau technegol eu natur, nad oes dadlau yn eu cylch;

   - pan fo deddfwriaeth y DU yn ymdrin â materion datganoledig yn ogystal â materion a gedwir yn ôl, ac mai deddfwriaeth y DU sy'n ei gwneud yn bosibl i amcanion polisi gael eu cyflawni yn y modd mwyaf effeithiol.

4. Bydd y materion canlynol yn rhan o ystyriaethau Llywodraeth Cymru ynghylch a ddylid argymell rhoi cydsyniad i Filiau'r DU:

   - I Weinidogion Cymru yn unig y dylid rhoi pwerau dirprwyedig, gan gynnwys pwerau Harri'r Wythfed, mewn Biliau gan Senedd y DU mewn meysydd datganoledig.

   - Ni ddylai Biliau gan Senedd y DU greu pwerau cydredol.

   - Os bydd Gweinidogion Cymru, mewn achosion eithriadol, yn cytuno y dylid creu pwerau cydredol, dylai pwerau o'r fath fod yn ddarostyngedig i'r mecanweithiau cydsynio perthnasol ac i'r eithriadau cysylltiedig o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, fel nad yw'n ofynnol i'r Senedd gael cydsyniad ar gyfer dileu'r pwerau yn y dyfodol.

- Dylai Biliau Senedd y DU naill ai ddiogelu neu wella’r setliad datganoli presennol, yn hytrach na chyflwyno cyfyngiadau neu faterion a gedwir yn ôl newydd.

- Rhaid i Weinidogion Llywodraeth y DU gadarnhau yn ysgrifenedig sut y byddant yn talu’r costau newydd a fydd yn syrthio ar Lywodraeth Cymru neu awdurdodau Cymreig datganoledig.

- Dylai unrhyw gorff trawsffiniol newydd sydd â swyddogaethau sy’n ymwneud â materion datganoledig feddu ar drefniadau llywodraethu (ac iddynt sail briodol mewn deddfwriaeth) sy’n rhoi rôl ystyrlon i Lywodraeth Cymru, a mesurau diogelu sy’n adlewyrchu’r cyd-destun polisi datganoledig ac atebolrwydd democrataidd.

- Dylid osgoi cytundebau rhynglywodraethol anneddfwriaethol, megis Memoranda Cyd-ddealltwriaeth ac ymrwymiadau’r blwch dogfennau, sy’n cyd-fynd â Biliau gan mai i raddau yn unig y maent yn rhwymo Llywodraeth bresennol y DU a chan nad ydynt yn rhwymo unrhyw Lywodraeth y DU a ddaw yn y dyfodol.